# Y CABINET 1/11/16

**Yn bresennol-**
Y Cynghorwyr: Dyfed Edwards (Cadeirydd), Dyfrig L. Siencyn, Peredur Jenkins, John Wynn Jones, Dafydd Meurig, W. Gareth Roberts, Mair Rowlands, Gareth Thomas, Ioan Thomas a Mandy Williams-Davies.

**Hefyd yn bresennol-**
Dilwyn Williams (Prif Weithredwr), Iwan Evans (Swyddog Monitro), Morwena Edwards (Cyfarwyddwr Corfforaethol), Iwan Trefor Jones (Cyfarwyddwr Corfforaethol), Dewi Morgan (Uwch Reolwr - Refeniw a Risg), Dafydd Gibbard (Uwch Reolwr Eiddo Corfforaethol - ar gyfer eitem 6 ar y rhaglen), Ian Jones (Uwch Reolwr Cymunedau Iach - ar gyfer eitem 7 ar y rhaglen), Geraint Owen (Pennaeth Cefnogaeth Gorfforaethol - ar gyfer eitem 8 ar y rhaglen) a Dewi W.Jones (Uwch Swyddog Gweithredol - ar gyfer eitemau 9, 10 ac 11 ar y rhaglen).

**1. YMDDIHEURIADAU**

Croesawyd Aelodau'r Cabinet a Swyddogion i'r cyfarfod.

Derbyniwyd ymddiheuriad gan Dafydd Edwards (Pennaeth Cyllid).

**2. DATGAN BUDDIANT PERSONOL**

Ni dderbyniwyd unrhyw ddatganiad o fuddiant personol.

**3. MATERION BRYS**

Nid oedd unrhyw faterion brys.

**4. MATERION YN CODI O DROSOLWG A CHRAFFU**

Nid oedd unrhyw faterion yn codi o drosolwg a chraffu.

**5. COFNODION Y CYFARFOD A GYNHALIWYD AR 4 HYDREF 2016**

Llofnododd y Cadeirydd gofnodion cyfarfod y Cabinet a gynhaliwyd ar y 14eg o Hydref, 2016, fel rhai cywir.

**6. CAU ADEILADAU FRONDEG, PWLLHELI A FFORDD Y TRAETH, FELINHELI**

Cyflwynwyd yr eitem gan y Cyng. Dafydd Meurig.

**PENDERFYNWYD**

Bwrw 'mlaen i gau adeilad Frondeg Pwllheli yn gynnar yn y flwyddyn ariannol 2017/18 a symud ymlaen i'w werthu ar y farchnad agored cyn gynted â phosib er mwyn caniatáu gwireddu'r arbediad ariannol yn llawn erbyn 2018/19, gyda'r Adran yn pontio'r diffyg yn y cyfamser.

Caniatáu defnyddio hyd at £30,000 o'r dderbynneb cyfalaf o werthu'r adeilad i gyllido costau ail leoli unwaith ac am byth.

Lleihau'r gofod dan brydles gan y Cyngor yn Ffordd y Traeth, Felinheli er mwyn lleihau'r gwariant blynyddol.

Gwireddu gweddill swm y toriad drwy osod gofod pellach yn Swyddfa Penrallt, Caernarfon.

**TRAFODAETH**

Gan gyfeirio at y bwriad i symud rhai o bwyllgorau mwyaf y Cyngor o Frondeg i Neuadd Dwyfor, nodwyd y gallai parcio fod yn broblem gan fod maes parcio Penlan yn hynod lawn, yn enwedig yn yr haf.  Mewn ymateb, nodwyd y gallai fod angen rhywfaint o hyblygrwydd wrth amseru cyfarfodydd gan hysbysu pobl i gyrraedd mewn da bryd.  Ychwanegwyd bod ymateb aelodau ardal Dwyfor i'r cynlluniau wedi bod yn gadarnhaol ac mai'r unig sylw a gafwyd hyd yma oedd y parcio.  Awgrymwyd y gallai prinder llefydd parcio annog yr aelodau i rannu ceir a thrwy hynny leihau eu hôl troed carbon.

Mewn ymateb i gwestiwn ynglŷn â gwerthiant Frondeg, cadarnhawyd bod trefniadau yn eu lle i roi gwybod i adrannau eraill y Cyngor am y cyfle hwn cyn gosod yr adeilad ar y farchnad agored.

Croesawyd y bwriad i ail-leoli'r Cylch Meithrin i'r Ysgol Gynradd gan y byddai hynny'n gwella'r ddarpariaeth.  Nodwyd hefyd y byddai symud pwyllgorau'r Cyngor i Neuadd Dwyfor yn cryfhau'r defnydd o'r adnodd hwn i'r dyfodol.

## 7. CAIS I RYDDHAU ADNODDAU O'R GRONFA TRAWSNEWID

Cyflwynwyd yr eitem gan y Cynghorydd Mair Rowlands.

**PENDERFYNWYD**

I fuddsoddi £50,000 unwaith ac am byth o'r Gronfa Trawsnewid i ddatblygu achos fusnes amlinellol ar gyfer asesu opsiynau busnes posib ar gyfer y gwasanaeth Hamdden.

**TRAFODAETH**

Mewn ymateb i ymholiad ynglŷn â beth fyddai'n digwydd nesaf, eglurwyd y byddai achos busnes yn cael ei lunio rhwng nawr a diwedd Mawrth ac y byddai adroddiad pellach yn cael ei gyflwyno ar ôl hynny fyddai'n rhoi cyfle i ystyried unrhyw fuddsoddiad pellach angenrheidiol yng nghyd-destun yr achos busnes hwnnw.

## 8. ADRODDIAD BLYNYDDOL ADNODDAU DYNOL

Cyflwynwyd yr adroddiad gan y Cyng. Peredur Jenkins.

**PENDERFYNWYD**

Cymeradwyo'r adroddiad blynyddol a mabwysiadu'r Cynllun Pobl.

**TRAFODAETH**

Pwysleisiwyd nad cynllun y Gwasanaeth Adnoddau oedd y Cynllun Pobl, eithr cynllun y Cyngor cyfan.

Croesawyd y gweithgaredd sy'n mynd ymlaen yn yr adran i hyrwyddo lles a datblygiad staff.

Holwyd a oes cyfartaledd cyflog rhwng dynion a merched, a yw'n cael ei fonitro ac oes modd ei gyfleu mewn ffordd synhwyrol? Mewn ymateb, eglurwyd y gofynnwyd eleni, am yr eildro ers mabwysiadu'r cytundeb tâl a chael y cytundeb torfol yn 2008, i ymgynghorydd annibynnol gynnal asesiad o lle'r oedd y Cyngor wedi cyrraedd gyda hyn. Pan gafwyd yr asesiad cyntaf dair blynedd yn ôl, 'roedd yn bositif iawn, ond 'roedd cydnabyddiaeth bod y sefyllfa yn anorfod a bod ymdrechion ddylai fod yn digwydd o fewn y Cyngor i leihau'r gagendor. Gobeithid y byddai'r hyn mae'r Cyngor wedi'i wneud dros y blynyddoedd diwethaf yn cau'r gagendor ymhellach ac y byddai hynny'n cael ei adlewyrchu yn adroddiad nesaf yr ymgynghorydd. Nodwyd ymhellach y gellid cyflwyno'r diweddariad hwnnw i'r Cabinet yn nes ymlaen yn y flwyddyn.

Nodwyd y byddai'n ddefnyddiol, wrth gyflwyno adroddiadau blynyddol yn y dyfodol, gweld faint o ferched sy'n gweithio ar wahanol haenau o'r Cyngor, beth yw'r rhwystrau a beth all y Cyngor ei wneud i gynorthwyo merched i oresgyn y rhwystrau hynny. Mewn ymateb, cyfeiriodd y Prif Weithredwr at y ffigur yn yr adroddiad ar gyfer maes llafur y Tîm Arweinyddiaeth Corfforaethol oedd yn dangos fod 61% yn ferched a 39% yn ddynion, oedd yn adlewyrchiad o'r cyfleoedd.

Nododd y Prif Weithredwr fod cyflog cyfartal yn fater dadleuol, sy'n cael ei gamddehongli weithiau. Pwysleisiodd fod cyfundrefn dâl y Cyngor yn rhoi'r un cyflog yn union am yr un gwaith drwy ddefnyddio system wrthrychol i fesur natur unrhyw swydd o fewn y Cyngor. Wedi dweud hynny, 'roedd canran uwch o ferched yn gweithio i'r Cyngor yn gweithio'n rhan amser ac felly fe fyddai cyfartaledd cyflog yr oedd merched yn ei dderbyn gymaint yn is. 'Roedd hynny yn wahanol i'r cwestiwn o fod yn talu cyflog cyfartal am yr un gwaith. Nodwyd hefyd bod gan y Cyngor amddiffyniad cyflog cyfartal ac na chyflwynwyd unrhyw gais ers cyn 2008 a bod yr amddiffyniad a sefydlwyd yn 2008 yn gadarn iawn.

Mynegwyd syndod ynglŷn â'r cynnydd sylweddol yn nifer y swyddi a ail hysbysebwyd. Mewn ymateb, nodwyd mai diben yr adroddiad blynyddol oedd amlygu materion o'r fath mewn ffordd ddealladwy a'i bod yn bwysig cael y data yn rheolaidd er mwyn gweld y tueddiadau.

Awgrymwyd y byddai'n fuddiol gwybod faint o absenoldebau salwch sy'n salwch tymor byr a faint sy'n salwch dros 4 diwrnod. Nodwyd hefyd bod y 38.4% o'r staff na fu'n absennol o gwbl oherwydd salwch yn ystod y flwyddyn ddiwethaf yn bobl gwerthfawr iawn, ac awgrymwyd y dylid ystyried eu gwobrwyo mewn rhy ffordd,

e.e. drwy lythyr gan yr Arweinydd / Prif Weithredwr neu reolwr llinell neu drwy gydnabod eu presenoldeb mewn seremoni, megis y Cyngor ar ei Orau.

Mynegwyd pryder ynglŷn â straen ar staff ysgolion, a phwysleisiwyd bod angen edrych, nid yn unig ar y bobl hynny sydd i ffwrdd o'r gwaith oherwydd straen, ond y rhai sy'n parhau i weithio dan straen.

Awgrymwyd y byddai'n fuddiol gwneud dadansoddiad pellach o'r absenoldebau salwch er mwyn gweld pa fisoedd o'r flwyddyn mae salwch ar ei uchaf, a pham.

Nodwyd bod yr adroddiad yn hawdd ei ddarllen ac yn dangos yn glir mai pobl yw adnodd pwysicaf y Cyngor. Nodwyd hefyd bod y Cynllun Pobl yn ddarllenadwy ac yn ddealladwy ac yn dangos bod yr holl waith sy'n ymwneud â staff y Cyngor yn deillio o roi pobl Gwynedd yn gyntaf.

Nodwyd y disgwylid i staff newydd arwyddo i fyny i'r Cynllun Pobl, ond bod angen ystyried hefyd beth sy'n ddisgwyliedig gan y staff hynny sydd wedi bod yn gweithio i'r Cyngor ers blynyddoedd.

Diolchwyd i bawb fu ynghlwm â'r gwaith o gynhyrchu'r adroddiad a'r Cynllun Pobl a nodwyd yr edrychid ymlaen at weld gweithrediad y cynllun.

## 9. ADRODDIAD PERFFORMIAD: AELOD CABINET YR AMGYLCHEDD

Cyflwynwyd yr adroddiad gan y Cyng. John Wynn Jones.

**PENDERFYNWYD**

Derbyn a nodi'r wybodaeth yn yr adroddiad.

**TRAFODAETH**

Gan gyfeirio at y drefn newydd o godi tâl am waredu gwastraff gardd, awgrymwyd y dylid tynnu sylw pobl at y ffaith bod ganddynt ddewisiadau eraill, megis compostio.

Nodwyd bod lle i ymfalchïo yn y cynnydd pellach yng nghanran y gwastraff sy'n cael ei ailgylchu o 58.70% yn 2015/16 i 62.75% erbyn diwedd Gorffennaf eleni a gofynnwyd i'r Aelod Cabinet anfon neges i'r dinasyddion yn diolch iddynt am eu hymdrechion.

## 10. ADRODDIAD PERFFORMIAD: AELOD CABINET CYNLLUNIO A RHEOLEIDDIO

Cyflwynwyd yr adroddiad gan y Cyng. Dafydd Meurig.

**PENDERFYNWYD**

Derbyn a nodi'r wybodaeth yn yr adroddiad.

## 11. ADRODDIAD PERFFORMIAD: DIRPRWY ARWEINYDD

Cyflwynwyd yr eitem gan y Cyng. Dyfrig Siencyn.

**PENDERFYNWYD**

Derbyn a nodi'r wybodaeth yn yr adroddiad.

**TRAFODAETH**

Nododd y Cyng. Dyfrig Siencyn, ymhellach i gynnwys yr adroddiad ysgrifenedig, iddo gyfarfod gydag Alun Davies, AC a'i swyddogion a'i fod yn edrych ymlaen at ddatblygu'r berthynas gyda'r Gweinidog i'r dyfodol. Nododd hefyd ei fod wedi paratoi ymateb i strategaeth ddrafft y Llywodraeth 'Miliwn o Siaradwyr Cymraeg erbyn 2050' a bod yr ymateb hwnnw wedi derbyn cymeradwyaeth y Pwyllgor Iaith ac wedi ei anfon ymlaen at y Gweinidog.

Nododd y Cyng. Mair Rowlands ei bod yn croesawu agoriad y Ganolfan Iaith newydd ym Mangor a diolchwyd i'r Cyngor am yr holl gefnogaeth i wireddu'r nod.

Holwyd sut y bwriedid mesur effaith y gweithgareddau iaith. Mewn ymateb, nodwyd mai'r nod oedd codi hyder pobl i ddefnyddio'r Gymraeg, ond nad oedd mesur llwyddiant ai peidio yn fater hawdd. Ar hyn o bryd, 'roedd y Cyngor yn mesur faint o bobl sydd wedi mynychu gwahanol ddigwyddiadau, ond nid oedd hynny'n fesur da gan nad oedd yn dangos a oedd yna gynnydd yn y defnydd o'r herwydd. Cynhaliwyd trafodaethau gyda chynllunwyr iaith, ond nid oedd yna ateb hawdd i'r cwestiwn. 'Roedd yn bwysig, fodd bynnag, bod y Cyngor yn parhau i chwilio am yr ateb ac yn gwneud popeth o fewn ei allu i geisio codi hyder pobl i ddefnyddio'r Gymraeg. Awgrymwyd hefyd, os yw'n anodd mesur yr effaith, y dylid yn hytrach ganolbwyntio ar ddarlunio beth yw llwyddiant.

Nodwyd bod y Siarter Iaith wedi ei ledaenu ar draws Gogledd Cymru erbyn hyn a bod y Llywodraeth yn edrych ar ei ledaenu ar draws Cymru. Diolchwyd i staff y Cyngor a'r ysgolion am eu gwaith ar y cynllun arloesol hwn ac ymfalchïwyd yn y ffaith bod plant y sir yn cael eu grymuso i baratoi eu cynlluniau gweithredu eu hunain ar gyfer y Siarter.

Cyfeiriwyd at ddiffyg cysondeb yn y ddarpariaeth ddwyieithog ar y gwasanaethau trenau ac awgrymwyd llythyru neu ofyn am gyfarfod gyda Llywodraeth Cymru i bwyso arnynt i sicrhau bod cyhoeddiadau ar y trenau ac yn y gorsafoedd yn ddwyieithog a bod ynganiad enwau lleoedd Cymraeg yn gywir.

Nododd y Cyng. Dyfrig Siencyn yr hoffai longyfarch y Cynghorwyr Elin Walker Jones a Mair Rowlands ar eu gwaith caled yn sefydlu Menter Iaith Bangor a dymunodd yn dda i'r ganolfan iaith newydd.

**12. ADRODDIAD PERFFORMIAD: AELOD CABINET YR ECONOMI A CHYMUNED**

Cyflwynwyd yr adroddiad gan y Cyng. Mandy Williams-Davies.

**PENDERFYNWYD**

Derbyn a nodi'r wybodaeth yn yr adroddiad.

**TRAFODAETH**

Ymfalchïwyd yn y ffaith bod Gogledd Cymru'n rhif 4 ar restr y Lonely Planet o lefydd i ymweld â nhw a diau y byddai yna fuddion economaidd yn deillio i'r ardal o hyn.

Nodwyd hefyd bod Zipworld ymysg y cwmnïau o Wynedd sydd wedi derbyn gwobr Twf Cymru 50 eleni.

Nodwyd bod Hwb Arloesi Porthmadog, sy'n cynnig gofod cydweithio newydd i fusnesau bychain iawn yn yr Hen Lyfrgell am bris rhesymol yn gynllun arloesol a gwerthfawr iawn.

Ar ddiwedd y cyfarfod, nododd y Cadeirydd fod Sophie Hughes, sydd wedi bod yn cefnogi'r Cabinet ers tro bellach, wedi ei phenodi i swydd newydd gyda'r Comisiynydd Iaith.  Diolchwyd iddi am ei holl waith a dymunwyd yn dda iddi i'r dyfodol.

Dechreuodd y cyfarfod am 1.00 y.h. a daeth i ben am 2.55 y.h.

**CADEIRYDD**